OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2024 Rhif (Cy. )

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A483 (Llanymddyfri i Ddinas-y-bwlch, Sir Gaerfyrddin) (Gwaharddiadau a Chyfyngiadau Traffig Dros Dro) 2024

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *9 Rhagfyr 2024* |
| *Yn dod i rym* | *15 Rhagfyr 2024* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o gefnffordd yr A483, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig a/neu gyfyngu arno ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

### Enwi a chychwyn

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A483 (Llanymddyfri i Ddinas-y-bwlch, Sir Gaerfyrddin) (Gwaharddiadau a Chyfyngiadau Traffig Dros Dro) 2024 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 15 Rhagfyr 2024.

### Dehongli

**2.** Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw—

(**1**) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2024 No. (W. )

# ROAD TRAFFIC, WALES

## The A483 Trunk Road (Llandovery to Sugar Loaf, Carmarthenshire) (Temporary Traffic Prohibitions & Restrictions) Order 2024

| | |
|---|---|
| *Made* | *9 December 2024* |
| *Coming into force* | *15 December 2024* |

The Welsh Ministers, as traffic authority for the relevant length of the A483 trunk road, are satisfied that traffic on specified lengths of the trunk road should be prohibited and/or restricted because of works proposed on or near the road.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 14(1), (4) and (7) of the Road Traffic Regulation Act 1984(**1**), make this Order.

### Title and commencement

**1.** The title of this Order is the A483 Trunk Road (Llandovery to Sugar Loaf, Carmarthenshire) (Temporary Traffic Prohibitions & Restrictions) Order 2024 and this Order comes into force on 15 December 2024.

### Interpretation

**2.** In this Order—

"exempted vehicle" ("*cerbyd esempt*") means—

(**1**) 1984 c. 27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c. 26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c. 32), these functions are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

(a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**);

(b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r lluoedd arbennig—

(i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu

(ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw cyfnod ysbeidiol sy'n dechrau am 00:01 o'r gloch ar 15 Rhagfyr 2024 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro ar gyfer pob cyfnod gwaith eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y gefnffordd" ("*the trunk road*") yw cefnffordd yr A483 Abertawe i Fanceinion;

ystyr "lluoedd arbennig" ("*special forces*") yw'r unedau hynny o'r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

**Gwaharddiadau a chyfyngiadau**

**3.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.

**4.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn.

**5.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd yn gyflymach na 10 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlenni 2 a 3 i'r Gorchymyn hwn.

(a) any vehicle being used for the purposes described in section 87 of the Road Traffic Regulation Act 1984(**1**);

(b) any vehicle being used for naval, military or air force purposes and being driven by a person for the time being subject to the orders of a member of the armed forces of the Crown, who is a member of the special forces—

(i) in response, or for practice in responding, to a national security emergency by a person who has been trained in driving at high speeds; or

(ii) for the purpose of training a person in driving vehicles at high speeds;

"special forces" ("*lluoedd arbennig*") means those units of the armed forces the maintenance of whose capabilities is the responsibility of the Director of Special Forces or which are for the time being subject to the operational command of that Director;

"the trunk road" ("*y gefnffordd*") means the A483 Swansea to Manchester trunk road;

"works period" ("*cyfnod y gwaith*") means intermittent periods commencing at 00:01 hours on 15 December 2024 and ending when the temporary traffic signs for each period of works are permanently removed.

**Prohibitions and restrictions**

**3.** No person may, during the works period, drive any vehicle, other than an exempted vehicle, on the length of the trunk road specified in Schedule 1 to this Order.

**4.** No person may, during the works period, drive any vehicle at a speed exceeding 40 miles per hour on the length of the trunk road specified in Schedule 2 to this Order.

**5.** No person may, during the works period, drive any vehicle at a speed exceeding 10 miles per hour on the lengths of the trunk road specified in Schedules 2 and 3 to this Order.

(**1**) Diwygiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p. 21), paragraff 42 o Atodlen 4 i Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 (p. 15), paragraff 29(2) o Atodlen 8 i Ddeddf Troseddu a'r Llysoedd 2013 (p. 22) ac adran 50(4) a (5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p. 20).

(**1**) Section 87 was amended by the Fire and Rescue Services Act 2004 (c. 21), Schedule 1, paragraph 55, the Serious Organised Crime and Police Act 2005 (c. 15), Schedule 4, paragraph 42, the Crime and Courts Act 2013 (c. 22), Schedule 8, paragraph 29(2) and the Deregulation Act 2015 (c. 20), section 50(4) and (5).

**6.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ddefnyddio cerbyd na chaniatáu i gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, gael ei ddefnyddio yn y fath fodd fel ei fod yn goddiweddyd unrhyw gerbyd arall ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlenni 2 a 3 i'r Gorchymyn hwn ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiad a bennir yn erthygl 5 yn weithredol.

### Cymhwyso

**7.**—(1) Ni fydd y gwaharddiadau a'r cyfyngiadau yn erthyglau 3, 4, 5 a 6 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

(2) Nid yw unrhyw derfyn cyflymder a osodir gan y Gorchymyn hwn yn gymwys i gerbyd esempt.

### Atal dros dro

**8.** Mae unrhyw ddarpariaethau statudol sy'n cyfyngu ar gyflymder cerbydau ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlenni 2 a 3 i'r Gorchymyn hwn wedi eu hatal dros dro ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiadau a bennir yn erthyglau 4 a 5 yn weithredol.

### Cyfnod para'r Gorchymyn hwn

**9.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd ar ran Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 9 Rhagfyr 2024

*Nicci Hunter*
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

## ATODLEN 1
## Gwahardd cerbydau dros dro

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn i gyfeiriad y gogledd-ddwyrain o'i chyffordd â'r A40 yn Llanymddyfri am tua 13.8 o gilometrau.

**6.** No person may, during the works period, use or permit the use of a vehicle, other than an exempted vehicle, in such a way that it overtakes any other vehicle on the lengths of the trunk road specified in Schedules 2 and 3 to this Order during such times as the restriction specified in article 5 is in operation.

### Application

**7.**—(1) The prohibitions and restrictions in articles 3, 4, 5 and 6 apply only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

(2) No speed limits imposed by this Order apply to an exempted vehicle.

### Suspension

**8.** Any statutory provisions restricting the speed of vehicles on the lengths of the trunk road specified in Schedules 2 and 3 to this Order are suspended during such times as the restrictions specified in articles 4 and 5 are in operation.

### Duration of this Order

**9.** The maximum duration for this Order is 18 months.

Signed on behalf of the Cabinet Secretary for Transport and North Wales, one of the Welsh Ministers.

Dated 9 December 2024

*Nicci Hunter*
Business Team Leader
Welsh Government

## SCHEDULE 1
## Temporary prohibition of vehicles

The length of the trunk road that extends in a north-easterly direction from its junction with the A40 at Llandovery for approximately 13.8 kilometres.

## ATODLEN 2
**Terfyn cyflymder 40 mya neu 10 mya dros dro a dim goddiweddyd**

Y darn o’r gefnffordd sy’n ymestyn i gyfeiriad y gogledd-ddwyrain o bwynt 702 o fetrau i’r gogledd-ddwyrain o’i chyffordd â’r A40 yn Llanymddyfri am tua 14.6 o gilometrau.

## ATODLEN 3
**Terfyn cyflymder 10 mya dros dro a dim goddiweddyd**

Y darn o’r gefnffordd sy’n ymestyn i gyfeiriad y gogledd-ddwyrain o’i chyffordd â’r A40 yn Llanymddyfri hyd at bwynt 702 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o'r gyffordd honno.

## SCHEDULE 2
**Temporary 40 mph or 10 mph speed limits and no overtaking**

The length of the trunk road that extends in a north-easterly direction from a point 702 metres north-east of its junction with the A40 at Llandovery for approximately 14.6 kilometres.

## SCHEDULE 3
**Temporary 10 mph speed limit and no overtaking**

The length of the trunk road that extends in a north-easterly direction from its junction with the A40 at Llandovery to a point 702 metres north-east of that junction.